PWYLLGOR CRAFFU'R ECONOMI A DIWYLLIANT

DYDD IAU, 11 IONAWR 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Howells(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Ebrahim, Gordon, Gavin Hill-John, Parkhill, Robson, Sattar a/ac Stubbs |

38 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEBAU

Ni chafwyd unrhyw rai.

39 : DATGANIADAU BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd datganiadau.

40 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod 7 Rhagfyr 2017 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

41 : Y DIWEDDARAF AM SAFONAU LLYFRGELLOEDD CYHOEDDUS CYMRU A CHYNIGION CYFFREDINOL GAN Y PRIF LYFRGELLWYR

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Lynda Thorne, yr Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau; Sarah McGill, Cyfarwyddwr Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid; Jane Thomas, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Tai a Chymunedau; a Nicola Pitman, Rheolwr y Llyfrgell Ganolog i'r cyfarfod.

Cafodd yr Aelodau gyflwyniad ar Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru, gan gynnwys gwybodaeth am y Pumed Fframwaith Ansawdd 2014 – 2017; Canlyniadau Blwyddyn 3 Hawliau Craidd; Dangosyddion Ansawdd a Thargedau wedi eu bwrw; Dangosyddion Ansawdd a Thargedau wedi eu bwrw yn rhannol; Dangosyddion Ansawdd - Meincnodi; Astudiaethau Achos; Adborth ar Adroddiadau Asesu; Perfformiad Gwell dros gyfnod 3 blynedd y 5ed Fframwaith; a gwybodaeth am y Chweched Fframwaith 2017 – 2020: Llyfrgelloedd Cysylltiedig ac Uchelgeisiol.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau:

- Gofynnodd Aelodau a oedd y cynllun presgripsiwn llyfrau'n dal i fod yn gyfredol ac atebwyd ei fod. Dros y flwyddyn ddiwethaf, bu Swyddogion yn lobïo Llywodraeth Cymru i ailwampio'r cynllun oherwydd bod angen mwy o arian ar ei gyfer. Ychwanegodd Swyddogion y gwneir cynnydd o ran stoc penodol ar gyfer demensia. Roedd brîff Gweinidogion wedi ei gyflwyno yn gofyn am gyllideb o £250,000 i lansio ar draws Cymru. Dywedodd Swyddogion y byddai cysylltu â chydweithwyr Iechyd, yn arbennig yn yr Hybiau, yn gwneud hyn yn haws.

- Gofynnodd Aelodau pam y rhestrir Caerdydd ar restr o 21 awdurdod lleol yn hytrach na 22, yn y llythyr gan y Prif Weithredwr i Lywodraeth Cymru. Atebodd Swyddogion bod un awdurdod lleol heb gyflwyno gwybodaeth erbyn y dyddiad

cau. O ran rhestru Caerdydd yn rhif 21 mewn cysylltiad â Staffio, holodd Aelodau beth gellid ei wneud i fynd i'r afael â hyn. Eglurodd Swyddogion nad oedd y Safonau'n caniatáu cyfri staff sy'n gweithio yn yr Hybiau yn y ffigurau hyn. Rolau a dyletswyddau cyfun y mae staff yr Hybiau'n eu cyflawni oedd y rhain. Roedd hyn yn gam effeithlonrwydd mawr ond nid yw'r Safonau'n ei gydnabod. Holodd Aelodau a fyddai Llywodraeth Cymru'n derbyn y ffigurau ac eglurodd Swyddogion y byddent yn cyflwyno'r achos oherwydd y byddai'r staff yn perthyn i'r sefydliad ac mae awdurdodau lleol eraill yn bwriadau dilyn yr un trywydd â Chaerdydd.

- Roedd yr Aelodau'n ystyried bod Her Ddarllen yr Haf yn llwyddiant enfawr a gofynnwyd a fyddai cyfle i Aelodau lleol helpu i hyrwyddo hyn ymhellach mewn ysgolion. Dywedodd Swyddogion eu bod yn hyrwyddo'r Her ar Facebook a Twitter ond y byddent yn falch o unrhyw gymorth gan Aelodau ac y byddai'r Swyddogion yn sicrhau eu bod yn derbyn gwybodaeth ar gyfer her eleni.

- Cafodd Aelodau wybod y targedau ar gyfer llyfrau plant a llyfrau Cymraeg a gofynnwyd a oedd galw am lyfrau mewn ieithoedd eraill. Rhoddwyd gwybod i'r Swyddogion eu bod yn prynu llyfrau mewn 24 iaith wahanol, yn bennaf yn y Llyfrgell Ganolog, ond eu bod yn cael eu hanfon allan i safleoedd lloeren.

Rhoddwyd cyflwyniad i Aelodau ar 'Gynnig Cyffredinol Llyfrgelloedd Caerdydd' a oedd yn cynnwys gwybodaeth am y Cynnig i Blant; y Cynnig Digidol; y Cynnig Iechyd; y Cynnig Gwybodaeth; y Cynnig Dysgu; y Cynnig Darllen; y Cynnig Diwylliant a'r Camau Nesaf.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau:

- Roedd yn galondid i'r Aelodau glywed am y cysylltiad â rhaglen Cyfeillion Demensia a gofynnwyd a ellid estyn yr hyfforddiant demensia i holl staff yr Hybiau ac i'r hyfforddiant gynnwys golwg cyflawn ar ymddygiad heriol gwahanol fathau o ddemensia. Dywedodd Swyddogion bod yr hyfforddiant yn trafod hyn ac yr edrychent ar bosibilrwydd estyn yr hyfforddiant trwy'r sefydliad a darparu gwasanaethau o'r Hybiau.

- Gofynnodd Aelodau am gael derbyn restr o'r Clybiau Codio a'r Clybiau Mafon – Pi.

- Roedd yr Aelodau'n awyddus i weld rhagor o wybodaeth am y Gymanwlad ar gael mewn llyfrgelloedd trwy'r ddinas.

- Gofynnodd Aelodau sut y gallent hyrwyddo'r gwasanaethau sydd ar gael i wardiau lle nad oes llyfrgell na Hyb. Eglurodd Swyddogion y byddant yn datblygu gwybodaeth hyrwyddo am bob un o'r gwasanaethau ac y rhoddir hon ar gael trwy'r ddinas ond y byddent hefyd yn gwerthfawrogi unrhyw help ychwanegol. Ystyriai Aelodau y gallai Cynghorau Cymuned hefyd helpu i hyrwyddo'r gwasanaethau hyn.

- Roedd yr Aelodau'n falch o glywed datganiad a wnaeth y Cynghorydd Thorne ynghynt yn y flwyddyn na fyddai toriadau ar y llyfrgelloedd ac roeddent am gael sicrwydd y byddai'r gwasanaeth llyfrgell symudol yn parhau. Cawsant wybod y byddai'n parhau ac nad oedd unrhyw gynlluniau i gwtogi'r

gwasanaeth, ac ei fod dan adolygiad er mwyn sicrhau bod y wasanaeth yn darparu lle mae ei angen. Byddai hyn yn rhan o rôl y llyfrgellydd cymdogaeth.

- Gofynnodd Aelodau pa ganran o ysgolion a fu'n rhan o Her Ddarllen yr Haf. Doedd yr wybodaeth hon ddim gan y Swyddogion yno ond bu ysgolion ar draws y ddinas yn rhan ohoni er y gallai fod yn her i sicrhau bod 100% yr ysgolion yn cymryd rhan.

PENDERFYNWYD y câi barn y Pwyllgor ei thrafod yn ystod y rhan o'r cyfarfod lle y trafodir y ffordd ymlaen ac y câi llythyr ei anfon at yr Aelod Cabinet maes o law.

42 : PAPUR GWYRDD YMGYNGHOROL 'ADEILADU MWY O SWYDDI A SWYDDI GWELL'.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Russell Goodway, yr Aelod Cabinet dros Fuddsoddi a Datblygu, Neil Hanratty, Cyfarwyddwr yr Economi a Datblygu a Ken Poole, Pennaeth Datblygu Economaidd i'r cyfarfod.

Cafodd yr Aelodau gyflwyniad am Bapur Gwyrdd Ymgynghorol 'Adeiladu Mwy o Swyddi a Swyddi Gwell', a oedd yn rhoi gwybodaeth am nod y Papur Gwyrdd; Cyd-destun Strategol; Cymaryddion Dinas; Cyd-destun Gofodol; Ffocws ar Ganol y Ddinas – Busnes; Bae Caerdydd – Hamdden; Gorllewin Caerdydd – Chwaraeon; Dwyrain Caerdydd – Diwydiant, Gogledd Caerdydd – Arloesi, Ymgynghoriad Pellach; Amserlen a'r Camau Nesaf.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau:

- Credai'r Aelodau ei bod yn bwysig cynnwys busnesau bychain a chanolig lleol yn yr ymgynghoriad. Roedd yr Aelodau'n gobeithio y ceid ymateb da gan fusnesau a rhwydweithiau oherwydd bod eu barn yn hanfodol. Roedd Aelodau'n ystyried y byddai'n ddiddorol cael gwybod eu barn hwy am yr hyn nad yw'n gyraeddadwy hefyd. Dywedodd yr Aelod Cabinet y byddent yn ymgynghori â phobl ar draws y ddinas yn ogystal â phobl o'r tu allan i'r ardal a oedd yn debygol o wireddu hyn. Roedd perthynas gadarnhaol â Llywodraeth Cymru o ran Datblygiad Economaidd a Buddsoddiad, a oedd yn galonogol, ac roedd angen creu perthynas â datblygwyr a chynllunwyr, ceisio barn gynnar yn y broses cyn ymgynghori a bwrw ymlaen â'r hyn sy'n debygol o weithio yn unig.

- Roedd Aelodau'n hoffi bod Caerdydd wedi ei rhannu yn ogledd/gorllewin a.y.b. ond pwysleisiwyd na ddylai fod datblygiadau tameidiol megis y Pentref Chwaraeon Rhyngwladol.

- Ceisiodd Aelodau sicrwydd bod Caerdydd yn diogelu'r cyfle i greu Metro De Cymru yn y ddinas at y dyfodol. Roeddent yn ystyried bod hyn yn hanfodol er mwyn gwneud y Bae a'r Pentref Chwaraeon Rhyngwladol yn llwyddiant gan fod pobl yn dibynnu ar geir i fynd yno ar hyn o bryd ac mae angen gwelliannau o ran mynediad ar feic ac ar droed. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau bod cysylltiadau i'r Bae a'r Pentref Chwaraeon Rhyngwladol dan ystyriaeth; mae angen i'r trafnidiaeth gyhoeddus fod o safon dda ac yn ddewis rhatach a gwell na char. Rhoddwyd sicrwydd i Aelodau mai sgyrsiau cynnar yn unig a fu ynghylch camau cyntaf y Metro, ateb rheilffordd ysgafn, agor pob mathau o gyfleoedd ar gyfer y Bae megis ailgyflunio Rhodfa Lloyd George a gwneud

Stryd Bute y ffordd gysylltu â chanol y ddinas. Sicrhawyd Aelodau y byddai holl brojectau'r dyfodol yn cael eu trafod ag Aelodau wardiau lleol.

- Roedd Aelodau'r bryderus ynghylch ceisiadau cynllunio a phrynu llecynnau gerllaw'r rheilffordd ar gyfer gorsafoedd; dywedodd yr Aelod Cabinet y byddai'n ymchwilio i hyn.

- Roedd yr Aelodau am gael sicrwydd yr ymgynghorid â busnesau bychain oherwydd eu bod yn rhan bwysig o'r economi ac yn cyfrannu. Dywedodd yr Aelod Cabinet yr anfonir yr ymgynghoriadau at 400/500 ar y tro ac y rhoddid cyfle iddynt oll ateb. Dywedodd Swyddogion y gall busnesu bychain gysylltu â'r Cyngor er mwyn cael eu hychwanegu at y rhestr er mwyn eu cynnwys yn y broses ymgynghori swyddogol hefyd; byddai sioeau symudol hefyd ar draws y ddinas.

- Roedd Aelodau'n ystyried bod amser yn hollbwysig a gofynnon nhw a oedd biwrocratiaeth ynghlwm â'r Fargen Ddinesig a fyddai'n effeithio ar y cynnydd. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau bod cynnig Caerdydd ar gyfer yr Orsaf Drenau Ganolog a'r ardal gyhoeddus o'i hamgylch yn cael ei drafod. Dywedodd yr Aelodau nad oedd y Cyngor yn dibynnu ar y Fargen Ddinesig i ariannu'r agenda hwn ond yn hytrach ar bartneriaid o'r sector preifat a'r trydydd sector.

- Cyfeiriodd yr Aelodau at gynllunio Ardal Ddiwydiannol yn nwyrain y ddinas ac at y gwahanol fathau o berchnogaeth tir sydd yno, gan ofyn a fyddai hynny'n destun trafferth. Gofynnodd Aelodau hefyd pa mor hyderus oedd yr Aelod Cabinet yn y broses gynllunio ac a allai rhai perchnogion rannu tir a rhoi'r uchelgais yn y fantol. Dywedwyd wrth Aelodau bod gan y Cyngor hanes da o ran cydgasglu tir; mae wedi dysgu gwersi ers y Sgwâr Canolog pan gyhoeddodd ei ddyheadau cyn rheoli'r bwrdd. Roedd angen trafodaethau cynnar â'r perchnogion tir ac roedd hyn eisoes ar waith.

- Gofynnodd Aelodau a byddai ymgynghoriad ag awdurdodau lleol cyfagos a dywedwyd y byddai hyn yn digwydd yng Nghydbwyllgor y Fargen Ddinesig. Roedd bwrdd Busnes y Brifddinas-Ranbarth hefyd yn cael ei sefydlu.

- Wrth gyfeirio at ddatblygiad y Bae, roedd yr Aelodau'n ystyried nad yw pobl leol wedi elwa o hyn a gofynnwyd pa wersi a ddysgwyd ar gyfer datblygiadau yn y ddinas ac ar gyfer gallu sicrhau'r gymuned ei bod yn rhan o'r ateb yn hytrach na'r broblem. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod angen iddynt beidio ag addo pethau a thorri'r addewidion, sef yr hyn a ddigwyddodd yn Butetown. Roedd angen uchelgais er mwyn gwella safon tai'r bobl a oedd yn byw yno yn ogystal â gwella tirlun y ddinas rhwng y canol a'r Bae. Yn y dyfodol, byddai angen ymrwymo i roi cyfle i bobl leol gael unrhyw swyddi a grëir.

PENDERFYNWYD y câi barn y Pwyllgor ei thrafod yn ystod y rhan o'r cyfarfod lle y trafodir y ffordd ymlaen ac y câi llythyr ei anfon at yr Aelod Cabinet maes o law.

43 : ADRODDIAD BUSNES Y PWYLLGOR

Rhoddwyd adroddiad ar ohebiaeth ddiweddar i'r Aelodau.

PENDERFYNWYD: Nodi’r adroddiad.

44 : DYDDIADAU'R CYFARFODYDD NESAF.

Dydd Llun 12 Chwefror 2018 am 4.00pm yn Ystafell Bwyllgor 4, Neuadd y Sir.